COMISIYNYDD SAFONAU
STANDARDS COMMISSIONER

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# April 2022 - March 2023



Mae'r Comisiynydd Safonau y Senedd yn berson annibynnol a benodir gan Senedd Cymru i ddiogelu safonau, cynnal enw da'r sefydliad a mynd i'r afael â chwynion.



**Douglas Bain CBE TD**
Comisiynydd Safonau'r Senedd

---

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Comisiynydd Safonau'r Senedd:
**www.comisiynyddsafonaucymru.org.**

Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn hefyd mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopi caled gan:


**Comisiynydd Safonau'r Senedd**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: 0300 200 6542
E-bost: **Comisiynydd.Safonau@senedd.cymru**

COMISIYNYDD
SAFONAU
STANDARDS
COMMISSIONER

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
## April 2022 - March 2023



# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 6
2. Swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd ........ 7
3. Cwynion ........ 8
4. Gwaith arall ........ 14
5. Gwariant ........ 16
6. Y flwyddyn sydd i ddod ........ 19
7. Diolchiadau ........ 20

# 1. Cyflwyniad

**1.** Dyma fy nhrydydd adroddiad blynyddol fel Comisiynydd Safonau'r Senedd, ac mae'n amlinellu sut rwyf wedi cyflawni swyddogaethau'r swydd honno yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

**2.** Ar ôl nodi'r darpariaethau statudol perthnasol, mae'n rhoi gwybodaeth am nifer y cwynion a phwnc y cwynion a ddaeth i law a'r modd y cawsant eu prosesu. Rhoddir gwybodaeth hefyd am waith arall a wnaed yn 2022-23, gwariant swyddfa'r Comisiynydd a'r hyn sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2023-24.

# 2. Swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd

**3.** Nid oedd unrhyw newidiadau i swyddogaeth a dyletswyddau’r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn adrodd. Crëwyd swydd Comisiynydd Safonau y Senedd gan adran 1(1) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 (‘y Mesur’).[1] Mae adran 5 o'r Mesur yn darparu ar gyfer annibyniaeth y Comisiynydd o gyfarwyddyd neu reolaeth y Senedd.

**4.** Nodir swyddogaethau'r Comisiynydd yn adrannau 6 a 7 o'r Mesur a gellir eu crynhoi fel a ganlyn –

- Derbyn, ymchwilio ac adrodd ar unrhyw gŵyn bod Aelod wedi methu â chydymffurfio â gofyniad yn y Cod Ymddygiad[2] (‘y Cod’) neu ddarpariaeth berthnasol arall;[3]
- Cynghori Aelodau o’r Senedd ac aelodau'r cyhoedd am y gweithdrefnau ynglŷn â gwneud cwynion ac ymchwilio i gwynion;
- Rhoi cyngor i'r Senedd ar unrhyw fater o egwyddor gyffredinol sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau, y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â hyrwyddo, annog a diogelu safonau uchel o ymddygiad mewn swydd gyhoeddus fel Aelod o’r Senedd.

**5.** Mae adran 19 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd, cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar sut mae swyddogaethau'r Comisiynydd wedi cael eu harfer yn ystod y flwyddyn honno.

---

[1] **http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/4/contents; http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/4/contents/enacted/welsh** .
Newidiwyd teitl y swydd o Gomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 7 Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru), pan ddaeth i rym ar 6 Mai 2020

[2] **https://senedd.cymru/media/wjnhovqp/cr-ld14238-w.pdf**

[3] Fel y'i diffinnir yn adran 6 (3) o'r Mesur

# 3. Cwynion

## Cyflwyniad

**6.** Prif swyddogaeth y Comisiynydd yw derbyn, ymchwilio ac adrodd ar gwynion bod Aelodau wedi torri darpariaethau'r Cod a darpariaethau penodol eraill, fel Rheolau Sefydlog y Senedd. Bu'n rhaid prosesu'r 71 cwyn a ddaeth i law yn unol â Rheolau Sefydlog y Senedd a'r rheolau sy'n ymwneud ag ystyried cwynion a fabwysiadwyd gan y Senedd. Ymdriniwyd â'r holl gwynion a ddaeth i law ar ôl 17 Gorffennaf 2022 o dan y Weithdrefn ddiwygiedig ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd[4] ('y Weithdrefn') a gymeradwywyd ar 6 Gorffennaf 2022. Gwnaeth y Weithdrefn ddiwygiedig nifer o newidiadau sylweddol sy'n berthnasol i waith y Comisiynydd gan gynnwys -

- Gorfodi dyletswydd ar y Comisiynydd i anfon copi o unrhyw gŵyn a ddaeth i law at yr Aelod dan sylw: o dan y Weithdrefn flaenorol, ni hysbyswyd Aelodau fel mater o drefn am gwynion annerbyniadwy yn eu herbyn;

- Caniatáu i'r Comisiynydd, yn amodol ar rai cyfyngiadau, barhau i ymchwilio i gŵyn yn ystod cyfnod etholiad: o dan y Weithdrefn flaenorol bu'n rhaid i bob gwaith ymchwilio ddod i ben yn ystod cyfnod etholiad;

- Lleihau'r cyfnod y mae'n rhaid gwneud cwyn i chwe mis ond rhoi disgresiwn i'r Comisiynydd ymchwilio i gŵyn pa mor hen bynnag ydyw os yw'n fodlon bod achos da dros yr oedi wrth ei chyflwyno: o dan y Weithdrefn flaenorol, roedd yn rhaid cyflwyno cwyn o fewn blwyddyn ond nid oedd gan y Comisiynydd unrhyw bŵer i ystyried cwyn a gyflwynwyd hyd yn oed un diwrnod y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw beth bynnag oedd y rheswm dros yr oedi wrth ei chyflwyno;

- Rhoi pŵer i'r Comisiynydd, mewn amgylchiadau sydd wedi'u diffinio'n agos, i roi'r gorau i ymchwilio i gŵyn dderbyniadwy: o dan y Weithdrefn flaenorol, nid oedd gan y Comisiynydd unrhyw bŵer o'r fath ac, er enghraifft, bu'n rhaid iddo ymchwilio ac adrodd ar gŵyn dderbyniadwy hyd yn oed os oedd yn ymwneud ag ymddygiad yr ymchwiliwyd iddo eisoes ac a adroddwyd arno; ac

- Egluro'r amgylchiadau pan gaiff y Comisiynydd ail-olygu rhan o adroddiad: o dan y Weithdrefn flaenorol er bod camau ail-olygu deunydd nad oedd yn dystiolaethol

[4] **Gweithdrefn Gwynion**

wedi digwydd, byddai ei gyhoeddi yn debygol o achosi niwed neu ofid, roedd yr awdurdod ynghylch gwneud hynny yn aneglur.

**7.** Yn ystod 2022-23, treuliwyd y rhan fwyaf o'm hamser, o bell ffordd, yn ymdrin â chwynion. Treuliwyd cyfran uchel o'r amser hwnnw ar ymchwilio i un gŵyn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ('y Pwyllgor') ar 12 Mai 2023.

## Cwynion a ddygwyd ymlaen o 2021-22

**8.** Ar ddechrau'r flwyddyn adrodd, roedd dwy gŵyn yn aros am benderfyniad ar dderbyniadwyedd. Yn gynnar yn y flwyddyn bresennol, penderfynais nad oedd un ohonynt yn dderbyniadwy. Cyflwynwyd adroddiad ar fy ymchwiliad i'r gŵyn arall i'r Pwyllgor ar 25 Ebrill 2022.[5]

## Cwynion newydd

**9.** Yn ystod y flwyddyn daeth 71 o gwynion newydd i law, gan gynnwys atgyfeiriadau gan y Clerc, o'r ffynonellau a ddangosir yn Nhabl 1.[6] Cafodd dau o'r rhain naill ai eu tynnu'n ôl neu eu gwrthod yn unol â pharagraff 4.4 o'r Weithdrefn cyn i benderfyniad ar eu derbyniadwyedd gael ei wneud.

***Tabl 1. Cwynion a ddaeth i law, ffynhonnell a derbyniadwyedd***

| | 2018-19 | 2019 -20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Daeth i law** | 43 | 106 | 216 | 44 | 71 |
| **% gan y cyhoedd** | 86 | 76.4 | 94 | 91 | 58 |
| **% gan Aelod yn erbyn Aelod** | 7 | 13.2 | 4.5% | 0 | 0 |
| **% gan Aelod yn ei erbyn ei hun** | 0 | 0 | 0.5% | 0 | 7 |
| **% gan Glerc y Senedd** | 7 | 10.4 | 1 | 9 | 35 |
| **% annerbyniadwy** | 76.7 | 85.9 | 41 | 80 | 49 |
| **% derbyniadwyedd heb ei benderfynu erbyn diwedd y flwyddyn** | 16.3 | 6.6 | 9 | 5 | 0 |

[5] **https://senedd.wales/media/g0yngi2u/cr-ld15154-r-w.pdf**

[6] Mae adran 9 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar y Clerc i gyfeirio materion penodol at y Comisiynydd, ac mae'n rhaid iddo drin yr atgyfeiriad fel cwyn.

**10.** Dangosir pwnc y 71 cwyn a ddaeth i law yn Nhabl 2.

***Tabl 2: Cwynion yn ôl pwnc***

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol** | 7 | 58 | 60 | 6 | 8 |
| **Camddefnyddio adnoddau** | 8 | 15 | 25 | 4 | 5 |
| **Safon gwasanaeth** | 9 | 13 | 7 | 16 | 5 |
| **Methu â chofrestru / datgan / diweddaru buddiant** | 4 | 9 | 95 | 7 | 27 |
| **Y tu allan i gylch gwaith (ymddygiad yn y Cyfarfod Llawn neu ymddygiad Gweinidogol)** | 6 | 7 | 12 | 3 | 20 |
| **Ymddygiad arall** | 9 | 4 | 17 | 8 | 6 |
| **CYFANSWM** | **43** | **106** | **216** | **44** | **71** |

**11.** Fe ganfyddais bod 34 o'r 69 o gwynion a oedd yn weddill yn dderbyniadwy.[7] Roedd pedwar o'r cwynion hyn yn ymwneud â materion yr oeddwn eisoes wedi'u hystyried mewn perthynas â chwyn arall. Ni fyddai wedi bod o unrhyw ddiben defnyddiol eu hail-ymchwilio ac yn unol â pharagraff 5.1(b) o'r Weithdrefn newydd, deuthum ag ystyriaeth ohonynt i ben. Ymchwiliais i'r 30 o gwynion eraill. Roedd 25 o'r rhain yn ymwneud â mân achosion o dorri'r rheolau, fel methu â dileu cofnod yn y Gofrestr Buddiannau o fewn y pedair wythnos a ganiateir o dan y Rheolau Sefydlog. Ym mhob achos, gan fod yr Aelod o dan sylw wedi cyfaddef eu bod wedi camymddwyn, wedi ei gywiro pan oedd yn gallu ac wedi ymddiheuro am hynny, cytunodd y Pwyllgor â fy argymhelliad na ddylwn barhau â fy ymchwiliad.

**12.** Cynhaliais ymchwiliad ffurfiol i'r bum gwyn dderbyniadwy a oedd yn weddill. Cyflwynwyd fy adroddiadau ar dri o'r ymchwiliadau hyn i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Yn un o'r adroddiadau hyn, rhoddais fy marn fod yr Aelod wedi torri darpariaeth o'r Cod Ymddygiad: yn y ddau arall rhoddais fy marn nad oedd tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri. Cytunodd y Pwyllgor

[7] Mae'r meini prawf o ran derbyniadwyedd wedi'u nodi ym mharagraff 3 o'r Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd.

â'r tair farn a rhoddodd wybod i'r Senedd am y materion.[8] [9] [10] Roedd y ddau ymchwiliad arall yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn.[11]

**13.** Penderfynais bod 35 o'r cwynion a ddaeth i law yn annerbyniadwy am y rhesymau a ddangosir yn Nhabl 3. Roedd paragraff 4.2 o'r Weithdrefn newydd a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2022 yn darparu meini prawf diwygiedig ar dderbyniadwyedd. Mae'r tabl yn dangos y rhesymau dros annerbyniadwyedd gan ddefnyddio'r meini prawf hyn ar gyfer pob cwyn a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhesymau dros annerbyniadwyedd cwynion am y pedair blynedd diwethaf wedi'u dosbarthu, i'r graddau y bo modd, yn unol â'r meini prawf newydd hyn ac wedi'u cynnwys yn y Tabl.[12]

***Tabl 3: Rhesymau dros annerbyniadwyedd***[13]

| Rhif y rheswm | Disgrifydd | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Ddim yn ysgrifenedig (Paragraff 4.2 (a) y Weithdrefn) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **2** | Ddim yn enwi'r achwynydd (Paragraff 4.2 (b) y Weithdrefn) | 1 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| **3** | Ddim yn ymwneud ag ymddygiad Aelod (Paragraff 4.2 (c) y Weithdrefn) | 1 | 5 | 2 | 2 | 0 |
| **4** | Ddim yn datgan gweithred neu ddiffyg y cwynir amdano (Paragraff 4.2 (d) y Weithdrefn) | 40 | 82 | 86 | 33 | 1 |
| **5** | Tystiolaeth ategol annigonol (Paragraff 4.2 (e)(i) y Weithdrefn) | - | - | - | - | 3 |
| **6** | Ymddygiad, os profir, nad yw'n torri darpariaeth berthnasol (Paragraff 4.2(e)(ii) y Weithdrefn) | | | | | |

[8] **Chweched Adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9**
[9] **Pumed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9**
[10] **Seventh report to the Sixth Senedd under Standing Order 22.9**
[11] Cyflwynwyd fy adroddiad ar un ohonynt i'r Pwyllgor ar 12 Mai 2023; daethpwyd ag ystyriaeth o'r llall i ben yn unol â pharagraff 5.1(g) o'r Weithdrefn
[12] I gael rhagor o fanylion amdanynt gweler baragraff 15 o'm hadroddiad ar gyfer 2021-22
[13] Cyflwynwyd ystadegau manylach ar y rhesymau dros annerbynioldeb ar gyfer 2022-23. Ar gyfer blynyddoedd blaenorol roedd y rhan fwyaf o gwynion yn cael eu dosbarthu fel rhai annerbyniol o dan y disgrifydd "Dim digon o sylwedd i gyfiawnhau ymchwiliad pellach." Dangosir y ffigurau yn erbyn Rheswm 4

| Rhif y rheswm | Disgrifydd | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | a. Ymddygiad yn y Cyfarfod Llawn neu Bwyllgor (Paragraff 3 y Cod) | - | - | - | - | 13 |
| | b. Ymddygiad Gweinidogol (Paragraff 7(ii) y Cod) | - | - | - | - | 7 |
| | c. Safon gwasanaeth (Paragraff 7(iii) y Cod) | - | - | - | - | 4 |
| | d. Arall | - | - | - | - | 7 |
| **7** | Ddim o fewn y cyfnod a ganiateir (Paragraff 4.2 (g) y Weithdrefn) | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 |

**14.** Canfuwyd mai'r rheswm mwyaf cyffredin pam mae cwynion yn annerbyniadwy oedd oherwydd bod yr ymddygiad wedi digwydd yn ystod Cyfarfod Llawn o'r Senedd. Mae paragraff 3 o'r Cod yn darparu mai'r Llywydd a chadeiryddion Pwyllgorau sydd, fel arfer, yn ymdrin ag ymddygiad Aelodau yn ystod Cyfarfod Llawn y Senedd ac mewn pwyllgorau, drwy droi at Reolau Sefydlog y Senedd. Dim ond os caiff cwyn am ymddygiad o'r fath ei chyfeirio at y Comisiynydd gan y Llywydd neu gadeirydd pwyllgor y caiff y Comisiynydd ymchwilio iddi.

**15.** Canfuwyd mai'r ail reswm mwyaf cyffredin pam mae cwynion yn annerbyniadwy oedd oherwydd eu bod yn ymwneud ag ymddygiad Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Mae adran 8 o'r Mesur a pharagraff 7(ii) o'r Cod yn ei gwneud yn glir nad oes gan y Comisiynydd unrhyw rôl mewn perthynas â chwynion am gamymddwyn honedig gan Aelod wrth weithredu'n llwyr yn rhinwedd ei swydd fel Gweinidog. Cafodd yr achwynwyr a honnodd gamymddwyn gweinidogol eu cyfeirio at swyddfa'r Prif Weinidog.

**16.** Cefais bedair cwyn am safon y gwasanaeth a ddarparwyd gan Aelodau. Roedd enghreifftiau'n cynnwys cwynion nad oedd Aelodau wedi ymateb i ohebiaeth neu nad oeddent wedi ymdrin â materion a godwyd gyda nhw. Mae paragraff 7 (iii) o'r Cod yn darparu nad yw'n ymwneud â safonau gwasanaeth a chanlyniadau a geir gan Aelod. Esboniwyd wrth y pedwar achwynydd nad oedd gan y Comisiynydd unrhyw bŵer i ymdrin â materion o'r fath ac mai'r datrysiad ar gyfer gwasanaeth gwael gan Aelod yw drwy'r blwch pleidleisio.

**17.** Roedd y chwe chŵyn a oedd yn weddill yn ymwneud ag ystod eang o gamymddwyn honedig gan gynnwys rhagfarn gan Gadeirydd Pwyllgor, camymddwyn rhywiol a sylwadau trawsffobig.

## Cwynion a ddygwyd ymlaen i 2023-24

**18.** Ar 31 Mawrth 2023 nid oedd dim cwynion nad oedd derbyniadwyedd wedi'u penderfynu eto. Roedd yr ymchwiliad i ddwy gŵyn dderbyniadwy yn parhau. Fel y nodwyd ym mharagraff 12, cwblhawyd y gwaith ar y ddwy yn gynnar yn 2023-24.

## Ystyriaethau

**19.** Y llynedd, cyfeiriais yn ffafriol at absenoldeb unrhyw gwynion gan Aelodau yn erbyn Aelodau eraill. Rwy'n falch o adrodd na fu cwynion o'r fath eto yn y flwyddyn bresennol. Credaf fod hyn oherwydd dealltwriaeth fwy aeddfed gan yr Aelodau mai bwriad y broses gwynion yw diogelu'r safonau ymddygiad uchel y dylent oll anelu atynt ac na ddylid cam-drin y broses mewn ymgais i sgorio pwyntiau pleidiol gwleidyddol.

**20.** Er bod nifer y cwynion wedi codi o 44 i 71 roedd yn dal yn llawer llai na'r 106 o gwynion a ddaeth i law yn 2019-20 neu'r 216 yn 2020-21. Ac er bod nifer y cwynion derbyniadwy wedi codi o chwech yn 2021-22 i 34 eleni, roedd hynny'n bennaf oherwydd bod mwy o ymwybyddiaeth gan Aelodau o'r angen i ddiweddaru eu buddiannau cofrestredig ac yn benodol i sicrhau bod buddiannau nad oedd bellach yn berthnasol iddynt yn cael eu dileu yn brydlon. Roedd yn rhaid i mi gynnal ymchwiliad llawn i ddim ond pump o'r 71 o gwynion a ddaeth i law. Roedd dwy o'r rhain yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn. Yn y dair arall cytunodd y Pwyllgor ar y farn yn fy adroddiadau.

**21.** Er bod lle i wella bob amser, rwy'n fodlon bod ymddygiad cyffredinol Aelodau o'r Senedd o safon uchel yn ystod 2022-23.

# 4. Gwaith arall

**22.** Ar ddechrau'r flwyddyn, parheais i weithio gyda'r Pwyllgor ar adolygu'r Weithdrefn. Daeth y fersiwn newydd i rym ym mis Gorffennaf 2022 ac mae eisoes wedi profi i fod yn welliant. Mae'r rhan fwyaf o'r Aelodau wedi croesawu'r ddarpariaeth newydd lle cânt wybod am yr holl gwynion yn eu herbyn: o dan yr hen Weithdrefn ni chawsant wybod fel arfer am y rhai nad oeddent yn dderbyniadwy. Mae'r ddarpariaeth newydd sy'n caniatáu i'r Comisiynydd, os yw'n fodlon bod rheswm da dros yr oedi, ystyried cwyn a gyflwynwyd y tu allan i'r terfyn amser o chwe mis yn fy ngalluogi i ddal yn dderbyniadwy ac ymchwilio i gŵyn o gamymddwyn difrifol a fyddai wedi cael ei gwahardd o dan y Weithdrefn flaenorol. Gwnaed defnydd hefyd o'r ddarpariaeth newydd ym mharagraff 5 o'r Weithdrefn sy'n caniatáu i'r Comisiynydd, o dan amgylchiadau cyfyngedig iawn, ddod ag ystyriaeth o gŵyn dderbyniadwy i derfyn.

**23.** Nodwyd ac adroddwyd ar feysydd pellach y gellid gwella ar Fesur 2009. Rwy'n adnewyddu fy argymhelliad i gael Bil i ddiweddaru'r Mesur a rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd gychwyn ymchwiliad i ymddygiad Aelod heb fod angen cwyn.

**24.** Cyflwynais sesiynau hyfforddi ar faterion yn ymwneud â chwynion i Aelodau'r holl bleidiau a gynrychiolir yn y Senedd. Cafwyd niferoedd da yn y sesiynau. Y nod oedd atgoffa'r Aelodau o'r meysydd mwyaf cyffredin sy'n arwain at gwynion, a dweud wrthynt sut y gellid eu hosgoi. Un argymhelliad oedd i'r Aelodau wirio'n rheolaidd bod eu buddiannau cofrestredig yn gyfredol. Yr eironi yw bod hyn wedi arwain at nifer o Aelodau yn cyfeirio eu hunain ataf i ymchwilio iddynt am fethu â hysbysu newid i'w buddiannau cofrestredig o fewn y cyfnod rhagnodedig o bedair wythnos.

**25.** Yn ystod ymchwiliad, daeth yn amlwg bod angen gallu cynnig gwasanaeth cymorth annibynnol i dystion bregus. Cafodd y gwasanaeth hwnnw ei gaffael yn gyflym ar gyfer yr ymchwiliad hwnnw ac mae ystyriaeth o sut y dylid ei ddarparu yn y dyfodol yn parhau.

**26.** Ym mis Mawrth cymerais ran yn y Rhwydwaith Safonau a gynhaliwyd yn llwyddiannus iawn gan Gomisiwn y Senedd. Ynddi, cefais gyfle i drafod gyda chynrychiolwyr Tŷ'r Arglwyddi, Tŷ'r Cyffredin, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon eu dull o ymdrin â safonau ymddygiad a dysgu am ddatblygiadau newydd yn eu hawdurdodaethau.

**27.** Gyda chymorth cyfreithiol helaeth, cafodd Hysbysiad Preifatrwydd newydd ar gyfer Swydd Comisiynydd Safonau'r Senedd ei baratoi a'i gyhoeddi.

**28.** Fel y nodwyd yn fy Adroddiad Blynyddol diwethaf, cwblhawyd Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda Heddlu Dyfed Powys a Heddlu Gwent ym mis Ebrill 2022.

**29.** Cytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiynydd Safonau, Comisiwn y Senedd a Chlerc y Senedd yn ymdrin ag ystod o faterion gan gynnwys cyfathrebu rhwng y partïon hyn a darparu staff a gwasanaethau i'r Comisiynydd.

**30.** Ymatebodd fy staff a minnau unwaith eto i fwy nag 20 o ymholiadau nad oedd llawer ohonynt yn ymwneud â fy swyddogaethau fel Comisiynydd. Roedd rhai gan 'gwsmeriaid' rheolaidd. Ym mhob achos, ymdriniwyd â hwy â chydymdeimlad a'u cyfeirio at y sefydliad priodol.

# 5. Gwariant

**31.** O dan adran 3 a pharagraff 5 o'r Atodlen i'r Mesur, rhaid i Gomisiwn y Senedd dalu'r Comisiynydd y cyflog a'r lwfansau a gytunir yn nhelerau ac amodau'r penodiad. Rhaid i'r Comisiwn hefyd dalu'r holl dreuliau rhesymol yr eir iddynt yn gyfreithlon gan y Comisiynydd wrth gyflogi staff, prynu nwyddau neu wasanaethau, a thalu lwfansau neu dreuliau i dystion.

**32.** Mae'r gwariant gan swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 i'w weld yn Nhabl 4.

*Tabl 4 – Gwariant swyddfa'r Comisiynydd*

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Costau cyflogaeth y Comisiynydd (Nodyn 1)** | 26,105 | 17,446 | 0 | 30,538 | 34,692 |
| **Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd** | | 376 | 0 | 1,014 | 4,264 |
| **Costau eraill y Comisiynydd** | | | 0 | 0 | 0 |
| **Costau cyflogaeth y Comisiynydd Dros Dro (Nodyn 1)** | 4,786 | 10,188 | 42,517 | 0 | 0 |
| **Teithio a chynhaliaeth y Comisiynydd Dros Dro** | 695 | 2,655 | 105 | 0 | 0 |
| **Costau eraill y Comisiynydd Dros Dro** | | | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm gwariant y Comisiynydd a'r Comisiynydd Dros Dro** | 31,586 | 30,665 | 42,622 | 31,552 | 38,955 |
| **Costau cyflogaeth (Nodyn 2)** | 44,798 | 123,630 | 92,834 | 70,874 | 71,115 |
| **Teithio a Chynhaliaeth staff** | 0 | 511 | 0 | 0 | 0 |
| **Costau eraill staff** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm costau staff** | 44,798 | 124,141 | 92,834 | 70,874 | 71,115 |
| **Gwariant arall yr aed iddo** | 0 | 1,528 | 25,259 | 4,957 | 9,524 |
| **CYFANSWM GWARIANT SWYDDFA'R COMISIYNYDD** | 76,384 | 156,334 | **160,715** | **107,383** | **119,595** |

Nodyn 1 - Tâl y Comisiynydd + cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr

Nodyn 2 - Cyflog staff = cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr + cyfraniad pensiwn y cyflogwr

**33.** Roedd y cynnydd o 11.3% yng nghostau rhedeg swyddfa'r Comisiynydd bron yn gyfan gwbl yn ymwneud â'r gost o ymchwilio i un gŵyn. Er gwaethaf y cynnydd, mae cyfanswm y costau yn parhau ymhell islaw'r ffigurau ar gyfer 2019-20 a 2020-21.

**34.** Roedd y gwariant o £9,524 ar 'wariant arall yr aed iddo' yn cwmpasu ystod o faterion gan gynnwys ffioedd cyfreithiol, costau trawsgrifio cyfweliadau tystion a chostau'r gwasanaeth cymorth a ddarperir ar gyfer tystion bregus.

# 6. Y flwyddyn sydd i ddod

**35.** Yn ogystal ag ymdrin â chwynion, byddaf, yn ystod 2023-24, yn parhau i weithio'n agos gyda'r Pwyllgor a'i staff i wneud y broses gwynion yn fwy effeithiol ac effeithlon drwy nodi unrhyw beth yn y Mesur, y Cod a'r Weithdrefn y gellid ei wella.


**36.** Byddaf yn darparu hyfforddiant gloywi pellach i'r Aelodau.

**37.** Bydd gwefan y Comisiynydd yn cael ei hadolygu a'i moderneiddio er mwyn hwyluso gallu’r cyhoedd i gael gafael ar wybodaeth am bob agwedd ar y broses gwyno. Byddaf yn ystyried ffyrdd eraill o hysbysu'r cyhoedd o'r broses honno.

**38.** Byddaf yn ystyried y ffordd orau o ddarparu cefnogaeth annibynnol ar gyfer cwynion a thystion bregus. Byddaf yn adolygu'r ymchwiliad lle nodwyd yr angen am y cymorth hwnnw gyda'r bwriad o ganfod gwelliannau y gellid eu gwneud mewn ymchwiliad i unrhyw gŵyn debyg.

# 7. Diolchiadau

**39.** Rhoddodd Jonathan Thomas, fy Rheolwr Ymchwiliadau a Chwynion, gyngor doeth a meddylgar unwaith eto ar y llu o faterion newydd a gododd yn ystod y flwyddyn. Cadwodd, hefyd, y cofnodion cynhwysfawr a chywir o gwynion a ddaeth i law a'r modd y cawsant eu prosesu. Rwy'n ddiolchgar iawn iddo ef ac i'r nifer fawr o staff Comisiwn y Senedd a'm helpodd i gyflawni fy nyletswyddau.



**Douglas Bain CBE TD**

Comisiynydd Safonau'r Senedd

07 Gorffennaf 2023